# Caerffili

## Sylwadau (cyhoeddwyd, cyflawn) a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol

**DBCC-6 Aelod o'r cyhoedd**

Gwahanwch y fwrdeistref yn ôl i Gaerffili ac Islwyn.
Dim ond tref Caerffili sy'n poeni Cyngor Caerffili, mae gweddill y fwrdeistref yn mynd yn adfail.

**DBCC-8 Aelod o'r cyhoedd**

Mae cael dau gyngor cymuned lleol bach hefyd yn wastraffus iawn.

Mae'n rhaid i gynghorau cymuned Dwyrain Rhisga a Thref Rhisga gyflogi clerc o gyllideb gymharol fach. Rwy'n cymryd yn ganiataol y bydd y ddau gyngor hyn yn cael eu huno?

**DBCC-13 Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Annwyl Foneddigion

Dywedir wrthym fod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn arolygu'r trefniadau etholiadol a ffiniau wardiau bob 12 mlynedd. Fodd bynnag, arolygwyd ffiniau Ward Caerffili ddiwethaf yn 2020. Dim ond pum mlynedd yn ôl!

Bryd hynny, cynigiodd y Comisiwn gyfuno Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys. Gwrthwynebwyd hyn yn gryf gan breswylwyr Ward Ynys-ddu. Rhoddwyd deiseb a lofnodwyd â llaw gan 1034 o bobl i'r Prif Weinidog ar y pryd, sef Mark Drakeford, ac anfonwyd llythyrau unigol gan breswylwyr, grwpiau cymunedol a Phartneriaeth Cymunedau Cwm Sirhywi Isaf. Cafodd y penderfyniad ei ddad-wneud yn y pen draw, ac ni ddigwyddodd y cyfuno.

Mae preswylwyr yn pryderu'n fawr y bydd y cynnig i gyfuno Wardiau Ynys-ddu a Crosskeys yn dod i'r wyneb eto. Ar bapur, mae'n ymddangos yn rhesymol. Fodd bynnag, mae papur a mapiau'n wastad, nid ydynt yn ystyried mynyddoedd, ffyrdd, llwybrau bysiau a dwy gymuned gwbl wahanol, sef Cwm Sirhywi a Chwm Ebwy, y mae gan y ddwy eu hagendâu a'u materion unigol eu hunain.

Gan edrych i'r cyfeiriad arall (i'r gogledd o Ward Ynys-ddu), rydym yn edrych ar Ward Pontllan-fraith. Unwaith eto, Ward brysur iawn a chwbl wahanol sydd â thri Chynghorydd, nad wyf yn credu y byddent yn croesawu cyfuno ag unrhyw ran o Ward Ynys-ddu.

Mae llwyth gwaith enfawr yn Ward Ynys-ddu gan fod sawl mater mawr sy'n cymryd llawer iawn o amser i bwy bynnag a etholir yn **ddau** gynrychiolydd y Ward. Chwarel Tŷ Llwyd, a adwaenir yn genedlaethol fel safle sy'n cynnwys gwastraff diwydiannol halogedig (gan gynnwys Biffenylau Polyclorinedig (PCBau)) a adawyd yno ym 1970 gan gwmnïau lleol a rhyngwladol – y mae angen ei glanhau o hyd! Yn ogystal, mae Ffatri Ailgylchu ddadleuol a dieisiau yng nghanol y Ward a Mwynglawdd Brig yn yr arfaeth y mae preswylwyr yn ei wrthwynebu'n gryf. Ni fydd y materion hyn yn

diflannu'n fuan ac maen nhw'n ychwanegol at y materion arferol sydd gan bob Cynghorydd yn ei Ward.

Rydym ni, y Cynghorydd Janine Reed a'r Cynghorydd Jan Jones, yn ddau berson lleol sydd bellach yn cynrychioli Ward Ynys-ddu.  Petai'r cynnig i gyfuno'n cael ei ailgyflwyno, byddai ymgeiswyr yn y dyfodol, sydd eisiau cynrychioli eu cymuned, yn cael eu hwynebu ag ardal etholiadol ychwanegol nad oes ganddynt wybodaeth amdani na chysylltiadau hanesyddol â hi.  Mae lleoliaeth yn golygu ymddiried mewn cynrychiolwyr etholedig i wybod sut orau i fodloni anghenion lleol ac yna eu dwyn i gyfrif trwy'r blwch pleidleisio.

Er mwyn osgoi ailadrodd cynnig diwethaf y Comisiwn, er hynny â bwriadau da, awgrymwn yn barchus eich bod yn ystyried eich dogfen Arolygon Etholiadol: Polisi ac Ymarfer 2025,

Ystyriaethau ar gyfer Arolwg o Drefniadau Etholiadol Prif Ardal :

'Wrth gynnal arolwg etholiadol, mae'n ofynnol i'r Comisiwn, yn ôl Adran 30 Deddf 2013, ystyried y ffactorau canlynol':

- Ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys maint, siâp a hygyrchedd ward etholiadol yn enwedig; ac
- Unrhyw gysylltiadau lleol (gan gynnwys cysylltiadau lleol sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg) a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau i'r trefniant etholiadol yn yr ardal.

Mae ein cwm yn deulu sy'n cynnwys pentrefi Wyllie, Ynys-ddu, Cwmfelin-fach, Brynawel a Wattsville sydd I gyd wedi'u cysylltu'n agos trwy fusnes, clybiau chwaraeon, ystad ddiwydiannol, ffermydd anghysbell, partneriaeth gymunedol, sefydliadau crefyddol, ysgolion, grwpiau ieuenctid, meddygfeydd a chymorthfeydd yr heddlu, parc gwledig a thwristiaeth.  Rydym yn gymuned glòs sy'n uniaethu â'n gilydd.  Mae Ward Ynys-ddu yn gymuned falch sydd wedi sefyll yn gadarn wrth gael ei herio gan awdurdod a gofynnwn i chi beidio ag ystyried unrhyw newid i Ffin y Ward.

Cofion cynnes

Y Cynghorydd Janine Reed a'r Cynghorydd Jan Jones

Y Cynghorydd Jan Jones

Cynghorydd Ward ar gyfer Ynys-ddu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Caerphilly County Borough Council

**DBCC-21 Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Prynhawn da,

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru | Democracy and Boundary Commission Cymru

O ran yr ymgynghoriad sy'n dod i ben heddiw, hoffwn wneud sylwadau y dylai ward Blackwood aros fel y mae o ran nifer y Cynghorwyr Sir.

Ar hyn o bryd mae 3 sedd, ac rydym eisoes dros y trothwy o 11 y cant ar y ffordd i ward 4 sedd.

Gofynnaf i chi ystyried hyn wrth wneud sylwadau dros newid.

Cofion

George

**DBCC-22 Cynghorydd lleol neu swyddog etholedig arall**

Annwyl Syr neu Fadam,

Gofynnaf i chi dderbyn fy nghynrychiolaeth ar gyfer Arolwg Etholiadol Caerffili 2025, yn benodol o ran Wardiau Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga. Er mwyn rhoi ychydig o gyd-destun amdanaf – symudais i Risga ym 1962 (yn ddwyflwydd oed) ac fe'm magwyd ar ystad Tŷ-Sign. Priodais ym 1984 ac ymgartrefu ym Mhontymister, felly gan fy mod wedi preswylio yma ers 63 blynedd, credaf fy mod yn gymwys i wneud y gynrychiolaeth hon. Rwyf wedi gweld llawer o newidiadau yn ystod y cyfnod hwn, e.e. rwy'n cofio pan roedd gan Risga ei gyngor ei hun (RUDC) a phetaech chi'n gofyn i'r bobl leol ble'r oedden nhw'n byw, ni waeth a oedden nhw'n byw yn Fernlea, Tŷ-Sign, Tŷ-Isaf ac ati, roedden nhw bob amser yn ateb 'yn Rhisga'. Ac mae hyn yn dal i fod yn wir heddiw. A dweud y gwir (heblaw am wleidyddion), nid wyf erioed wedi clywed neb yn cyfeirio at Ddwyrain neu Orllewin Rhisga, dim ond 'Rhisga'. Yn y 60au roedd Tŷ-Sign yn ystad loeren a adeiladwyd ar gyfer gweithwyr y Gwaith Dur newydd (Llanwern) (fel llawer o ystadau eraill; Betws (Casnewydd), Bulwark (Cas-gwent) a Chil-y-coed i enwi ond ychydig). Daeth pobl i'r ardal o bob rhan o dde Cymru, boed hynny o Lanelli ac Abertawe yn y gorllewin, neu o Dredegar, Glynebwy a Markham yn y dwyrain (nid yw'r rhestr yn cynnwys popeth, dim ond rhai enghreifftiau). Roedd yn enghraifft o Gymru wirioneddol gosmopolitan a ffynnodd 'Rhisga' o ganlyniad i'r mewnlifiad hwn.

Rwyf wedi gwneud sylwadau ar Risga yn ymgynghoriadau blaenorol y Comisiwn Ffiniau, gan gyfeirio at y ffaith bod y dref yn gydnerth o hyd er bod y gymuned wedi'i rhannu ar draws dwy ward (rhoddaf ychydig o gyd-destun i'r sylw hwn ar 'rannu' yn ddiweddarach). Nodaf hefyd yr arolwg diweddar o gymunedau Caerffili, y mae ei argymhellion wedi cael eu cymeradwyo bellach ar lefel Llywodraeth Cymru. O ran Rhisga (*diddymu tref Gorllewin Rhisga a chymuned Dwyrain Rhisga gan felly ddefnyddio'r ardaloedd i ffurfio cymuned newydd Rhisga*), mae hyn yn mynd ymhell tuag at aduno ein cymuned ac felly fe'i croesewir. Gan y bydd yr argymhellion yn dod i rym ym mis Mai 2027, o ran ystyriaethau'r Comisiwn ar gyfer ei arolwg o brif ardaloedd Caerffili, credaf yn gryf iawn y dylid gwneud argymhelliad tebyg, i uno

Rhisga ar lefel bwrdeistref sirol ac felly adlewyrchu ‘cymuned newydd Rhisga’. Cyflwynaf fy achos fel a ganlyn:

O ran ffiniau, rhannwyd Rhisga yn ddau yn dilyn arolwg blaenorol, nad yw pobl leol erioed wedi deall ei ganlyniadau. Gan gyfeirio at fy sylw cynharach ynglŷn â’r rhaniad, petawn i’n dweud ei fod wedi hollti ein cymuned, rhaid deall serch hynny ein bod ni mor wydn fel unigolion ac yn gofalu am ein gilydd cymaint fel nad yw’r hollt yn weladwy, mater o **linell ffin ydyw yn unig, a dim mwy**. I’r rhai a fyddai’n dadlau fel arall, e.e. gan sôn am bocedi o amddifadedd, fe ddywedaf hyn. Mae pocedi o amddifadedd yn bodoli, wrth gwrs, fel y ceir yn y rhan fwyaf o gymunedau, ond yn achos Rhisga mae llawer wedi cael eu creu (yn bennaf) gan bolisi Cyngor Caerffili. Yn fuan ar ôl ei sefydlu (1996), gwnaed penderfyniadau a oedd yn cynnwys defnyddio ardal o Dŷ-Sign i gartrefu pobl o’r tu allan i Risga. Roedd hyn nid yn unig wedi gwanhau cydlyniant cymunedol ond wedi achosi llawer o anniddigrwydd gan ei fod wedi creu problemau o raddau a maint amrywiol. Er hynny, mae Rhisga’n lle cyfeillgar a chynnes iawn o hyd, a hynny oherwydd ein gwydnwch.

Fe’m hetholwyd i’r cyngor yn 2017 i gynrychioli ‘Gorllewin Rhisga’. Wedi dweud hynny, rwy’n falch o gael fy adnabod yn lleol fel bachgen ‘Tŷ-Sign’ ac yn angerddol, hefyd. O ran un ward ‘cymuned Rhisga’, petai’n cael ei ffurfio, byddwn yn croesawu’r cyfle i gynnig fy enw yn y dyfodol, i gynrychioli’r gymuned gyfan. Fel y crybwyllwyd eisoes, nid yw pobl erioed wedi deall y rhaniad Dwyrain a Gorllewin, e.e. beth oedd y rhesymeg wrth wraidd defnyddio’r llinell reilffordd fel y ffin? Wrth i Risga ehangu tua’r dwyrain, y gamlas yw’r ffin naturiol oherwydd bod Rhisga wedi ehangu’n uwch (na’r gamlas) (Tŷ-Sign, Eryri, Trenewydd, Preseli, Cadair Idris), tra byddai ward y Dwyrain (gyda ffin y llinell reilffordd) yn cynnwys Herbert Avenue, Channel View, Woodview Road, Gelli Crescent ac ati (nid yw’r rhestr yn cynnwys popeth), nad oes ganddynt gysylltiad naturiol â Thŷ-Sign, Trenewydd ac ati. Mewn gwirionedd, mae Herbert Avenue ac ati’n cyd-fynd yn naturiol â’r hen Bontymister a Rhisga (sef Gorllewin Rhisga ar hyn o bryd) oherwydd dyna’n union ydynt, rhan o’r hen Bontymister a Rhisga, sy’n golygu bod y llinell ffin yn gwbl ddisynnwyr. Petai’r gamlas wedi cael ei defnyddio fel y ffin, ward y Dwyrain fyddai’r lleiaf o’r ddwy ward (gyda dau gynghorydd) a byddai angen tri chynghorydd yn ward y gorllewin, fel y mae.

Argymhellodd yr arolwg diwethaf o ffiniau wardiau Caerffili (tua 2018-19 – os wyf yn cofio’n iawn) leihau nifer y cynghorwyr wardiau o 73 (i 66), ond penderfynwyd yn derfynol ar 69 yn dilyn rhai trafodaethau hir gyda’r cyngor. Deallaf ymhellach mai’r safbwynt presennol yw y dylai fod rhwng 62 a 68 o gynghorwyr yng Nghaerffili. Gyda hyn mewn golwg, mae’r arolwg hwn nid yn unig yn cynnig cyfle i aduno cymuned Rhisga, ond hefyd yn rhoi cyfle arall i’r Comisiwn leihau nifer y cynghorwyr o bump ar draws dwy ward bresennol Rhisga i bedwar mewn un ward cymuned Rhisga.

O ran yr hyn y mae’r Comisiwn yn ystyried eu bod yn bwyntiau ar gyfer cynnal ei arolwg, cynigiaf y pwyntiau ychwanegol canlynol:

i) O ran yr arolwg cymunedol diweddar a'r cynrychiolaethau a wnaed o blaid cadw dau gyngor cymuned (a wrthodwyd gan y Comisiwn) gan fod dwy gymuned unigryw yn yr ardal, dim ond yn ward bresennol y Dwyrain y ceir y farn honno ac nid oedd yn ymddangos bod llawer o bwyslais ar ethos cymuned. Mewn gwirionedd, mewn ardaloedd â phoblogaeth gymharol fach, credaf ei bod yn gwneud synnwyr i alinio cymunedau at ddibenion cymdeithasol a chydlynol. O ystyried cyfanswm nifer yr etholwyr yn wardiau presennol Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga (8707), a'r cymarebau etholwyr i gynghorwyr presennol, mae gan gynghorwyr y Dwyrain amrywiant -19% ar gyfartaledd y sir o gymharu â 2% ar gyfer y Gorllewin. Petai'r wardiau'n cael eu cyfuno a nifer y cynghorwyr yn cael eu lleihau (i 4), byddai'r gymhareb hon yn gyfystyr â 2,176 o etholwyr fesul cynghorydd, sef amrywiant o oddeutu 11% sy'n cyd-fynd yn ffafriol ag oddeutu 11 o wardiau o fewn y fwrdeistref, fel y safant ar hyn o bryd. Byddai hyn yn cefnogi awydd y Comisiwn i alinio'r gymhareb etholwyr i gynghorwyr ar draws y fwrdeistref gyfan cyn belled ag y bo'n ymarferol. O ran cymarebau, mae hyn nid yn unig yn cynnig tipyn o gydraddoldeb, ond hefyd y cyfle i gael un yn llai o gynghorwyr traws-ward, gan wneud Rhisga'n ward unigol â 4 aelod wrth symud ymlaen.

ii) O ran ystyriaethau daearyddol, o ran aliniad cymunedol, nid wyf yn gwybod sut y cytunwyd ar y ffin bresennol rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin ar yr adeg y'i cyflwynwyd. Ond mae'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ag argymhellion arolwg cymunedol diweddar y Comisiwn yn awgrymu y byddai'n gwneud synnwyr i ddilyn hyn ymlaen ar lefel sir. Bydd hyn yn golygu y byddai'r ward newydd yn dychwelyd i hen ffin Rhisga a fodolai ers blynyddoedd lawer cyn y rhaniad, ac sydd felly'n brofedig.

iii) O ran cysylltiadau lleol, byddai'r penderfyniad i uno hefyd yn atgyfnerthu'r sefyllfa bresennol, yn yr ystyr bod y rhan fwyaf o breswylwyr Rhisga wedi parhau i'w hystyried yn un gymuned.

iv) Bydd Rhisga (fel un ward, wedi'i haduno) yn cyd-fynd ag awydd y Comisiwn i ddefnyddio ffiniau wardiau ac ardaloedd cymunedol fel 'sylfeini' ar gyfer wardiau etholiadol prif ardaloedd.

v) Bydd Rhisga (fel un ward, wedi'i haduno) â phedwar cynghorydd yn cyd-fynd ag awydd y Comisiwn i beidio â chael mwy na phedwar cynghorydd fesul ward, gydag un cynghorydd yn llai.

vi) Bydd Rhisga (fel un ward, wedi'i haduno) yn cyd-fynd â chred y Comisiwn bod wardiau etholiadol aml-aelod yn debygol o fod yn effeithiol mewn ardaloedd trefol. Derbynnir bod rhywfaint o Risga'n wledig, ond wedi dweud hynny mae wedi'i chysylltu'n dda (ac yn drefol yn bennaf).

Yn olaf, yn sgil ailsefydlu 'cymuned Rhisga' ar lefel gymunedol, byddai'n rhesymol ymestyn y cysyniad hwn i'r brif ardal. Nid yw hynny'n syniad newydd nac amhrofedig; mater syml o ddychwelyd i'r hen sefyllfa ydyw.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru | Democracy and Boundary Commission Cymru

Gofynnaf i'r Comisiwn ystyried yr uchod a dod i'r casgliad y dylid aduno Rhisga a'i dychwelyd i fod yn un gymuned, fel y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei gweld o hyd.

Cofion

**Y Cynghorydd Bob Owen**
Cynghorydd Sir - Gorllewin Rhisga | County Councillor - Risca West
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Caerphilly County Borough Council